

~~CERTIFIED A TRUE COPY~~

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

~~WELSH MINISTERS~~  
~~1126 283~~  
2017 Rhif (Cy.)

## TRAFFIC FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A458  
(Tal-y-bont i Bont Cefn, Powys)  
(Terfyn Cyflymder 50 mya) 2017

Gwnaed

16 Tachwedd 2017

Yn dod i rym

20 Tachwedd 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr Amwythig i Ddolgellau (yr A458), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Tachwedd 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Tal-y-bont i Bont Cefn, Powys) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

## WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

*1126. 283*  
2017 No. (W. )

## ROAD TRAFFIC, WALES

The A458 Trunk Road (Buttington to Cefn Bridge, Powys) (50 mph Speed Limit) Order 2017

Made 16 November 2017

Coming into force 20 November 2017

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road (A458), in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

### Title, Interpretation and Commencement

1. This Order comes into force on 20 November 2017 and its title is The A458 Trunk Road (Buttington to Cefn Bridge, Powys) (50 mph Speed Limit) Order 2017.

2. In this Order:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchymynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("the trunk road") yw cefnffordd yr Amwythig i Ddolgellau (yr A458);

ystyr "luoedd arbennig" ("special forces") yw'r unedau hynny o'r luoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

#### Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i'r dwyrain o ochr ddwyreiniol Cylchfan Taly-bont hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwyt ei chyffordd â ffordd wledig yr U2248, Sale Lane, Cefn, Powys.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

16 Tachwedd 2017

N Ley

Nina Ley  
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("luoedd arbennig") means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" ("y gefnffordd") means the Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road (A458).

#### Restriction

3. No person shall drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road that extends from a point 40 metres east of the eastern side of Buttington Cross Roundabout to a point 30 metres west of the centre-point of its junction with county road U2248, Sale Lane, Cefn, Powys.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers

Dated

16 November 2017

N Ley

Nina Ley  
Head of Asset Management and Standards  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFORDD YR A458 (TAL-Y-BONT I BONT CEFN, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 20 Tachwedd 2017.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 50 mya ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i'r dwyrain o ochr ddwyreiniol Cylchfan Tal-y-bont hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwyt ei chyffordd â ffordd wledig yr U2248 Sale Lane, Cefn, Powys.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 17 Tachwedd 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn ynghyd â phlan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell y Trallwng, Brook Street, y Trallwng SY21 7PH neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1297768.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (detholer: Ddeddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (BUTTINGTON TO CEFN BRIDGE, POWYS) (50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order under section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 20 November 2017.

The effect of the Order is to introduce a 50 mph speed limit on the length of the A458 trunk road that extends from a point 40 metres east of the eastern side of Buttington Cross Roundabout to a point 30 metres west of the centre-point of its junction with county road U2248, Sale Lane, Cefn, Powys.

During a period of 6 weeks from 17 November 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Welshpool Library, Brook Street, Welshpool SY21 7PH or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1297768.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

**A copy of this notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

